CYNGOR BRO LLANLLWNI 6 GORFFENNAF 2015

Croesawodd y Cadeirydd aelodau o'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon, y Cylch Meithrin a CFfI Llanllwni ac aelodau'r Cyngor Bro i'r cyfarfod a chroesawyd Dewi Davies yn ôl wedi triniaeth. Llongyfarchwyd Linda Evans ar ei dyrchafiad ar Gyngor Sir Caerfyrddin.

Diolchwyd gan Dewi Davies i bob mudiad am gytuno i gydweithio ac am eu hymroddiad yn ystod yr wythnos i sicrhau y byddai'r diwrnod hwyl yn llwyddianus. Penderfynwyd yn unfrydol y byddai Dewi Davies a Owain Davies, Gwndwn, yn beirniadu ar y dydd. Bydd y beirniadu yn dechrau am ddau o'r gloch.
Nododd aelodau o'r Cyngor Bro nad oedd yn dderbyniol i dynnu lluniau o blant ar y diwrnod a'i rhoi ar gyfryngau cymdeithasol heb ganiatâd ymlaen llaw gan rieni'r plant.

PLISMONA:
Croesawyd Eleri Bonning i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol. Yr oedd cwyn wedi dod i'r aelodau am gyflymdra y ceir yn mynd heibio i'r ysgol.

Y CAE CHWARAE:
Yr oedd y Clerc wedi derbyn Canllawiau gan gwmni yswiriant AON ac yr oedd y Cadeirydd wedi derbyn copi cyn y cyfarfod gan y Clerc. Yr oedd Eric Davies wedi penderfynu, ar ran y Cyngor Bro, ar fin ar gyfer y cae chwarae; yr oedd yr archeb wedi ei hanfon. Pe byddai'r cais am ford bicnic a chadeiriau yn llwyddianus, penderfynwyd y byddai'r Clerc yn archebu'r adnoddau priodol.
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies.

AGENDA:
Yr oedd y Clerc wedi rhoi poster priodol yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

SBWRIEL:
Yr oedd y Clerc wedi derbyn ebost yn cadarnhau bod Cerddwyr y Talardd wedi bod yn casglu sbwriel ar 26 Mai 2015, ac y byddent yn parhau i wneud hynny bob nos Fawrth yn ystod misoedd yr haf. Penderfynwyd gan yr aelodau y byddai'r clerc yn danfon llythyr o ddiolch.

CAIS AM GRANT DAN GYNLLUN LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU:
Penderfynwyd gwneud cais trwy gydag Ysgol Llanllwni am balmant o Cwmawel i Ffynnon-ddrain gan fod angen i ddisgyblion gerdded i'r cae chwarae i fanteisio ar yr adnoddau newydd yno, ac i'r ysgol, ac er mwyn i drigolion Llanllwni gerdded i'r siop yn ddiogel.
Dyddiad cau 17 Gorffennaf 2015.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 14 Medi 2015 am 8yh.